| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 18 Gorffennaf 2024 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys gofyniad penodol fod y Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor fel rhan o'r ddyletswyddau deddfwriaethol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (3.4.8.10.1).<br><br>Mae gofyn i'r Pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt (3.4.8.10.10)<br><br>Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion Datganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022 , yn benodol, mewn perthynas â swyddogaeth archwilio mewnol yr awdurdod a Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, sy'n nodi'r angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio adrodd ar wybodaeth am gynnydd a chanlyniadau gweithgareddau archwilio (Safon 2060). | |

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor am y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 30 Mehefin 2024 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 31 Mawrth 2024, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:

- canlyniad y gwaith Archwilio mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd ac
- ein blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

Gorffennaf 2024





Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg




# Cynnwys

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ___ 1
Cyrchfan – Tîm Morwrol: Prosesau Incwm ___ 2
Archwiliad TG – Rheoli Cyflenwyr TG ___ 2
Gwytnwch Ariannol – Asesiad o Gadernid yr Amcangyfrifon a Digonolrwydd y Cronfeydd Wrth Gefn (Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2003) ___ 3
Gwaith ar y Gweill ___ 4
Camau Gweithredu sy'n Weddill ___ 4
Blaenoriaethau ___ 5
Capasiti Presennol ___ 5
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ___ 5
Blaenoriaethau Tymor Hwy ___ 5

# Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

1. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Ebrill 2024, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.
2. Rydym wedi cwblhau **tri** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|
| Tîm Cyrchfan - Morwrol: Prosesau Incwm | **Rhesymol** | 0 | 1 | 6 |
| Archwiliad TG – Rheoli Cyflenwyr TG | **Cyfyngedig** | 0 | 0 | 10 |
| Asesiad o gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn (Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003) | **Rhesymol** | 0 | 0 | 0 |

## Cyrchfan – Tîm Morwrol: Prosesau Incwm

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Rhesymol | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 6 | Cymedrol |

3. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

   **A oes trefniadau effeithiol ar waith gan y tîm Cyrchfan – Morwrol i gasglu, cofnodi a bancio incwm o'i holl weithgareddau yn llawn ac yn y ffordd fwyaf effeithiol?**

4. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer casglu, cofnodi a bancio incwm gweithgareddau Morwrol yn effeithiol ar y cyfan, yn bennaf oherwydd bod y tîm yn brofiadol ac yn ddiwyd.

5. Er hynny, nodwyd nifer o risgiau gennym. Oherwydd y gwendidau sy'n cael eu hamlygu ganddynt, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried mewn mwy o fanylder mewn sesiwn breifat.

6. Codwyd saith Mater/Risg y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cael effaith gymedrol ar lefel gwasanaeth, a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr sydd wedi'i gynnwys mewn dogfen ar wahân.

7. Er ein bod yn gallu darparu lefel resymol o sicrwydd, mae'n bwysig bod y gwasanaeth yn lliniaru'r prif risgiau ariannol a gweithredol yn y maes hwn, yn ogystal â risg i enw da'r Cyngor.

8. Oherwydd hyn, rydym wedi cytuno i gynnal adolygiad dilynol ym mis Ionawr 2025 er mwyn cynorthwyo'r gwasanaeth i gryfhau ei reolaethau mewnol.

## Archwiliad TG – Rheoli Cyflenwyr TG

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Cyfyngedig | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 10 | Cymedrol |

9. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

   **A oes rheolaethau effeithiol ar waith gan y Cyngor i leihau risgiau allweddol yn gysylltiedig â rheoli ei gyflenwyr TG?**

10. Cynhaliwyd y gwaith hwn ar ein rhan gan y Tîm Archwilio TG yng Nghyngor Salford. Daethant i'r casgliad nad yw'r Cyngor, ar y cyfan, yn rheoli'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli cyflenwyr TG yn ddigonol ac i lefel dderbyniol.

11. Mae pryderon mewn perthynas â holl agweddau rheoli cyflenwyr, o gymryd camau diwydrwydd dyladwy cyn caffael contractau i derfynu contractau, ac mae farn 'Sicrwydd Cyfyngedig' yn adlewyrchu hynny.

12. Fodd bynnag, mae'r materion hyn yn arwydd o broblem caffael ehangach yn y Cyngor sy'n derbyn sylw fel rhan o raglen wella ddwy flynedd o dan arweiniad arbenigwr caffael allanol.

13. Codwyd 10 o Faterion/Risgiau gennym ac rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda rheolwyr sydd wedi ei gynnwys mewn dogfen ar wahân. Rydym wedi derbyn sicrwydd bod rheolwyr yn bwriadu mynd i'r afael â'r holl Faterion/Risgiau fel rhan o raglen dwy flynedd.

14. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Materion/Risgiau'n cael eu datrys a bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## Gwytnwch Ariannol – Asesiad o Gadernid yr Amcangyfrifon a Digonolrwydd y Cronfeydd Wrth Gefn (Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2003)

| | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Rhesymol | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |

15. Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol canlynol:

**A oes trefniadau effeithiol ar waith gan y Cyngor i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA 2019 (Safon 'K') mewn perthynas â chadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn wrth bennu cyllideb flynyddol y Cyngor a phraesept y Dreth Gyngor?**

16. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad fod y Cyngor yn cydymffurfio ag adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a 'Safon K' yng Nghod Rheolaeth Ariannol CIPFA mewn perthynas â chadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn wrth bennu ei gyllideb flynyddol a phraesept y Dreth Gyngor. Er gwaethaf hyn, bydd rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd, yn sgil yr hinsawdd ariannol heriol yn ystod y ddwy flynedd nesaf, er mwyn diogelu ei wytnwch ariannol.

17. Mae Datganiad Adran 25 y Cyngor yn benllanw fframwaith rheolaeth ariannol a phroses gosod cyllideb gymhleth, yn seiliedig ar brosesau cynllunio ariannol cadarn ar gyfer y tymor canol, dadansoddiad o risgiau macro-economeg, strategaethau cyfalaf a rheoli trysorlys a phrosesau rheoli cyllideb yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys tystiolaeth o arfer dda a amlinellwyd gan CIPFA, megis ymgysylltu'n gynnar ag aelodau ac uwch swyddogion, defnyddio dulliau craffu fel rhwystrau a gwrthbwysau pwysig, profi gwahanol ddatrysiadau i ymateb i gyfyngiadau cyllidebol, ac adlewyrchu cydymffurfiaeth y Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

18. Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi o gadw o leiaf 5% o'i gyllideb refeniw net mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn seiliedig ar berfformiad ariannol blaenorol a rhagolygon ac mae'n helpu i liniaru rhywfaint ar unrhyw risg ariannol annisgwyl. Defnyddiwyd £4.425m o arian wrth gefn i ariannu cyllideb refeniw 2024-25, gan adael balans o £10.79m, sydd gyfystyr â 5.88% o'r gyllideb refeniw net.

19. Mae'n bwysig nodi fod parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu gwasanaethau'n creu risg sylweddol i wytnwch ariannol y Cyngor. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad Adran 25, sy'n amlinellu'n glir er fod y lefelau presennol o fewn y trothwyon a gytunwyd, ni fydd yn bosib defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r gyllideb refeniw yn y dyfodol.

20. Mae targed arbedion o £2.3m wedi'i gynnwys yn y gyllideb flynyddol ar gyfer 2024-25. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno ar gynllun arbedion manwl ac mae'r Panel Sgriwtini Cyllid a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi ei ystyried. Bydd yr arbedion hyn yn cael ei goruchwylio drwy gydol y flwyddyn fel rhan o brosesu a sefydlwyd i fonitro'r gyllideb.

21. Oherwydd yr heriau ariannol sylweddol a ragwelir yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, 2025-26, a'r angen tebygol am arbedion pellach o £7.4m, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi dechrau gweithio gyda gwasanaethau i nodi ffyrdd o gau'r bwlch ariannol, yn ogystal ag ymarfer i bennu cost ar gyfer cyflawni Cynllun y Cyngor 2023-28 a'i amcanion, i sicrhau bod cynlluniau'n canolbwyntio ar flaenoriaethau penodol y Cyngor. Oherwydd maint yr arbedion y bydd rhaid eu gwneud yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, megis trwy fwrdd neu banel effeithiolrwydd. Rydym wedi derbyn sicrwydd y bydd trefniadau llywodraethu addas yn cael eu rhoi ar waith i oruchwylio'r gwaith o gyflawni arbedion ar ôl iddynt gael eu datblygu a'u cymeradwyo gan aelodau.

22. Gan fod gwytnwch ariannol wedi'i nodi fel risg allweddol ar Gofrestr Risgiau Strategol y Cyngor, byddwn yn parhau i gadw llygaid ar y maes hwn. Er hynny, o fewn cwmpas ein hadolygiad, gallwn ddarparu lefel resymol o sicrwydd mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y maes hwn ar yr adeg hon.

# Gwaith ar y Gweill

23. Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:


| Maes | Rheswm ar yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Datganiadau o Ddiddordeb | Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-2025 | Wedi'i ohirio |
| Rheoli Debyd Uniongyrchol | Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 | Adroddiad Drafft |
| Goruchwylio Partneriaethau | Strategaeth Archwilio Mewnol 2023-24 | Adroddiad Drafft |
| Rheoli Asedau'r Cyngor | Cofrestr Risgiau Strategol (YM14) | Gwaith Maes |
| Ymchwiliad – Gwasanaethau Eiddo | Cwyn | Gwaith Maes |
| Ymchwiliad – Gwasanaethau Tai | Cwyn | Gwaith Maes |
| Gofal Plant a Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg | Ar gais y Prif Weithredwr | Gwaith Maes |
| Archwiliad TG: Dadansoddiad o'r Bylchau – Fframwaith Asesu Seiberddiogelwch | Cofrestr Risgiau Strategol (YM3) | Gwaith Maes |
| Recriwtio a Chadw | Cofrestr Risiau Strategol (YM3) | Gwaith Maes |
| Strategaeth Dai'r Cyngor | Cofrestr Risgiau Strategol (YM9) | Gwaith Maes |
| Monitro Parhaus (nodi taliadau gwallus a thwyllodrus) | Strategaeth Archwilio Mewnol 2024-25 | Gwaith Maes |

# Camau Gweithredu sy'n Weddill

24. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi sylw i'r holl 'Faterion/Risgiau' a godwyd a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

25. Ar 30 Mehefin 2024, nid oedd chwe mater/risg cymedrol wedi derbyn sylw er bod y dyddiad targed wedi mynd heibio, fel y gwelir isod.

**Materion / Risgiau Hwyr Fesul Gwasanaeth**



# Blaenoriaethau

## Capasiti Presennol

26. Rydym wedi colli un swydd Uwch Archwilydd oherwydd yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd. Mae un swydd Uwch Archwilydd yn parhau'n wag, gan fod secondiad tymor hir yn parhau.

27. Rydym yn parhau i ddefnyddio arbedion ariannol yn sgil y swydd wag i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol.

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

28. Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran Gwaith ar y Gweill yn gynharach yn yr adroddiad. Ein blaenoriaeth yw cwblhau'r ymchwiliadau, ac yna'r sicrwydd ynghylch Risgiau Strategol.

29. Mae gwaith yn gysylltiedig â'r Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2024-25 a'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2022-25 yn datblygu'n raddol.

## Blaenoriaethau Tymor Hwy

30. Mae'r Bwrdd Safonau Archwilio Mewnol Rhyngwladol (IIASB) wedi cyhoeddi Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang ar 9 Ionawr 2024, a byddant yn dod i rym yn dilyn cyfnod pontio o flwyddyn. Mae'r safonau'n arwain yr arfer proffesiynol byd-eang ar gyfer archwilio mewnol.

31. Mae'r Bwrdd Ymgynghori ar Safonau Archwilio Mewnol (IASAB), sy'n gosod y safonau ar gyfer sector cyhoeddus y DU, wedi dechrau ei adolygiad ar effaith y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (PSIAD), a bydd yn datblygu cynigion ar gyfer deunydd wedi'i ddiwygio, fydd yn addas ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y DU. Bydd unrhyw newidiadau dilynol i PSIAD y DU, a'u gweithredu, yn destun ymgynghori a threfniadau pontio priodol.

32. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am yr effaith y gallai hyn ei gael ar waith y Pwyllgor.